


# Yn Darparu Ar Gyfer y Fro

## Strategaeth Gymunedol

### 2010-2020





Bwrthyn yn Llanfeiddan



Digwyddiad awyr agored yng Ngerddi Dyffryn



Bae Jackson, y Barri

## Members of the Vale of Glamorgan partnership



Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg



Coleg y Barri



Maes Awyr Caerdydd



Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



Cyngor Cefn Gwlad Cymru



Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru



Heddlu De Cymru



Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd



Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro



Cyngor Bro Morgannwg



Llywodraeth Cynulliad Cymru



Adardy yn y parc, Penarth



Seiclo yn y Fro

## Cynnwys

<b>Rhagair</b>	4
<b>Cyflwyniad</b>	5
Beth yw Strategaeth Gymunedol?	5
Bwrdd Gwasanaethau Lleol	5
Gweledigaeth ar gyfer y Fro	6
Y Dyfodol a Thueddiadau	6
Newid Economaidd	7
Newid Demograffig	7
Cymunedau Newidiol	7
Ynni, Trafnidiaeth a Chynhyrchu llai o Garbon	7
Addasu i Newid Hinsawdd	7
Diogelu Bwyd	7
Newid Technolegol	8
Adnoddau	8
<b>Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles</b>	9
Cyflwyniad	9
Materion Strategol	10
Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu	11
<b>Dysgu a Sgiliau Gydol Oes</b>	13
Cyflwyniad	13
Materion Strategol	13
Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu	15
<b>Plant a Phobl Ifanc</b>	17
Cyflwyniad	17
Materion Strategol	17
Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu	19
<b>Diogelu'r Gymuned</b>	21
Cyflwyniad	21
Materion Strategol	21
Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu	23
<b>Adfywio</b>	25
Cyflwyniad	25
Materion Strategol	25
Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu	26

## Rhagair



gan y Cyngorydd Gordon Kemp  
Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol y Fro ac  
Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg




Ardal Glannau'r Barri

Dyma ail Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg. Cytunwyd ar y strategaeth gyntaf yn 2003 ac yn unol ag arweiniad presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru, cafodd ei hadolygu ar gyfer y cyfnod rhwng 2010 a 2020.

Mae'r strategaeth yn rhestru'r prif broblemau sy'n wynebu'r Fro ac yn cynnig ffyrdd o wella ansawdd bywyd yn yr ardal. Cafodd ei llunio gan bartneriaeth a oedd yn cynnwys sefydliadau allweddol yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol. Mae hefyd yn adlewyrchu'r sylwadau a wnaethpwyd ar ôl i ni ymgynghori â chymunedau lleol ar y pynciau y maent yn eu hystyried yn bwysig yn y Fro.

Byddwn yn parhau i adolygu'r strategaeth o bryd i'w gilydd, a bydd hynny'n cynnwys rhagor o ymgynghori er mwyn i ni gael sicrhau ei bod yn dal yn berthnasol i bryderon pobl lleol.

Y Cyngorydd Gordon Kemp



Bae Whitmore, Ynys y Barri

## Cyflwyniad

### Beth yw Strategaeth Gymunedol?

Fel pob cyngor arall yng Nghymru, y mae dyletswydd ar Gyngor Bro Morgannwg o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i lunio Strategaeth Gymunedol er mwyn gwella sefyllfa economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal a helpu i'w datblygu mewn ffordd gynaliadwy. Dyma ail Strategaeth Gymunedol y Fro ac y mae'n berthnasol i'r cyfnod rhwng 2010 a 2020.

Mae'r strategaeth yn ystyried ein gweledigaeth ar gyfer y Fro yn y dyfodol a phrif gamau gweithredu. Mae'n ceisio sicrhau bod holl nodau a thargedau sefydliadau'r Fro'n cael eu cyfeirio tuag at ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u canolbwyntio ac yn gyson dda ar gyfer trigolion, ymwelwyr a busnesau. Gellir dweud mai cydymdrech i wella ansawdd bywyd yn y Fro i'r diben hwnnw yw'r Strategaeth.

Buom yn ymgynghori'n helaeth wrth ddatblygu'r Strategaeth er mwyn sicrhau bod cymunedau a sefydliadau lleol yn cael cyfle i wneud cyfraniad. Dechreuodd y broses gyda chynhadledd Fforwm Gwasanaethau Lleol ym Mai 2009, a threfnwyd nifer o 'arddangosfeydd â chriw' rhwng Mehefin a Medi mewn gwahanol rannau o'r Fro, er mwyn codi ymwybyddiaeth ac annog y cyhoedd i ddweud ei farn.

### Bwrdd Gwasanaethau Lleol

Bwrdd Gwasanaethau Lleol Bro Morgannwg yw'r bartneriaeth strategol sy'n gyfrifol am bob agwedd ar gynllunio cymunedol yn y Fro, a bydd gan hynny hefyd yn goruchwylio'r broses o lunio a gweithredu'r Strategaeth Gymunedol. Ei aelodau yw uwch-gynrychiolwyr y sefydliadau sydd wedi'u rhestru y tu mewn i glawr blaen y ddogfen hon.

Pum partneriaeth strategol sy'n cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau sef:

- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Plant a Phobl Ifanc
- Diogelwch Cymunedol
- Adfywio.

Dyma'r prif bartneriaethau o safbwynt ymdrin â'r themâu strategol hyn. Mae gan bob un strategaeth a luniwyd ar ôl dadansoddi manwl a chyfraniad helaeth oddi wrth rai yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol sydd â diddordeb yn y meysydd dan sylw. Rhoddwyd sylw llawn i'r strategaethau partneriaeth hyn wrth lunio'r Strategaeth Gymunedol.



Caeau yn Cosmeston



Pentir a Glanfa Penarth



Cynhaef yn y Wig



Longau yn y Barri

## Gweledigaeth ar gyfer y Fro

Mae gennym weledigaeth o'r Fro fel lle:

- glân, diogel a deniadol, lle mae cyfle parhaol i unigolion a chymunedau ddod yn iachach ac yn fwy addysgedig, medrus, ffyniannus a chyffyrddus, a
- lle mae teimlad cryf o gymuned a'r gallu a'r symbyliad gan grwpiau ac unigolion lleol i gyfrannu'n effeithiol tuag at sicrhau bod modd cynnal yr ardal yn y dyfodol.

Lle cymharol gyfoethog ar y cyfan yw Bro Morgannwg, ac y mae llawer o'i thrigolion yn cael mwynhau safon byw uchel mewn amgylchedd da. Serch hynny, y mae anawsterau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol mewn ambell i ardal fel diweithdra mawr, tai gwael, plant yn methu â chyflawni yn yr ysgol a'r coleg, iechyd gwael a llawer o drosedd. Ein nod yw targedu'r hyn sydd angen ei wella, a hefyd gynnal a hybu nodweddion gorau'r Fro, fel y caiff trigolion yr ardal a phawb sy'n gweithio neu'n hamddena ynddi well ansawdd bywyd.



Canolfan Addysg Dow Corning, Llynnoedd Tregatwg

## Y Dyfodol a Thueddiadau

Mae penodau'r Strategaeth Gymunedol hon yn crynhoi'r strategaethau y mae'r prif bartneriaethau eisoes wedi'u cadarnhau ac wrthi'n eu gweithredu (sef rhai unigol sydd hefyd yn gorgyffwrdd â'i gilydd).

Eto i gyd, y mae'n amlwg y dylai'r Strategaeth Gymunedol wneud mwy na chrynhoi. Dylai hefyd gynnig gweledigaeth o ddyfodol y gellir ei gynnal yn y tymor hir, a nodi'r prif gamau y bydd yn rhaid eu cymryd er mwyn sicrhau bod y Fro'n cyrraedd targedau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Fel y mae pawb yn dod i'w ddeall erbyn hyn, y mae nifer o dueddiadau hanfodol bwysig y mae'n rhaid eu hystyried wrth fentro cynllunio ar gyfer y tymor hir. Ni all neb fynnu "busnes fel arfer" yn wyneb datblygiadau byd-eang yn yr amgylchedd, yr economi, technoleg a'r gymdeithas sy'n sicr o effeithio'n sylfaenol ar ffordd cymdeithasau, sefydliadau a dinasyddion o ymddwyn. Nid yw'r ffyrdd traddodiadol o gynllunio'n strategol yn addas bellach, a bydd yn rhaid i ni ailfeddwl ac ailwampio'n strwythurau cymdeithasol sylfaenol ar gyfer iechyd, gofal, addysg, trafnidiaeth a dod i fyw mewn ffordd hollol wahanol. Cynnyrch yr oes ddiwydiannol sydd wedi'u haddasu i'r oes honno yw'r pethau hyn, a phellach y mae'n rhaid eu hailwampio ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Gan hynny, y mae'n rhaid i'r Strategaeth Gymunedol ddod o hyd i'r tueddiadau hyn a dangos sut yn union y maent yn debyg o effeithio ar yr ardal. Dyma flas bach ar rai o'r newidiadau pwysicaf y bydd yn rhaid eu hwynebu.



Tywod a môr, Ynys y Barri



Gerddi Eidalaid Penarth

## Newid Economaidd

Mae cydweithrediad byd-eang yn datblygu'n gyflymach nag erioed o'r blaen. Am fod mwy o gystadlu, arloesi di-ben-draw a thechnoleg newydd bellach, bydd angen gweithlu mwy medrus, a bydd yn rhaid canolbwyntio ar sectorau sy'n ychwanegu gwerth uchel. Bydd angen helpu busnesau i ddeall marchnadoedd newydd (sef y galw am nwyddau a gwasanaethau er enghraifft) a manteisio arnynt.

## Newid Demograffig

Rhagwelir y bydd cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth, a mwy o alw ar wasanaethau tai a gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad. Bydd y boblogaeth yn hŷn hefyd, felly bydd mwy o bwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a bydd gordewdra cynyddol yn ychwanegu at y galw hwn. Daw'r boblogaeth yn fwy amrywiol yn sgîl mewn fudo cynyddol, a bydd perygl felly iddi fod yn llai unedig. Bydd fframweithiau teuluol yn fwy cymhleth, a bydd hynny'n rhoi pwysau ar wasanaethau gofal.



Castell y Bewpyr ger y Bont-faen

## Cymunedau Newidiol

Mae'n bosibl y bydd "unigolyddiaeth" yn parhau i gynyddu a chymunedau'n gwanhau o ganlyniad. Bydd mwy o duedd i deuluoedd tlawd a chyfoethog fyw ar wahân ac i bobl gymdeithasu'r tu allan i'r gymdogaeth, a bydd llai o dai fforddiadwy, a thuedd gynyddol i droseddu ddigwydd amlaf yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Bydd yr holl dueddiadau hyn a rhai eraill cysylltiedig yn

effeithio ar lawer iawn o wasanaethau cyhoeddus ac ar y camau y bydd sefydliadau'n eu cymryd ar y cyd er mwyn ymdrin â'r problemau hyn.

## Ynni, Trafnidiaeth a Chynhyrchu llai o Garbon

Bydd yn fwy anodd i Gymru gael digon o ynni wrth i'r galw byd-eang gynyddu, gyflenwadau fethu a chostau godi. Pan fydd cynhyrchu olew'r byd yn cyrraedd ei anterth, y mae'n ddigon posibl y bydd argyfwng ynni byd-eang. Gan hynny, bydd angen datblygu ffynonellau eraill ar wahân i danwydd ffosiledig megis ynni adnewyddadwy, ynni niwclear ac ynni bio-màs. Bydd yn rhaid i'r gymdeithas ddefnyddio trafndiaeth mewn ffordd hollol wahanol a chynhyrchu llai o garbon drwy fanteisio ar y dechnoleg briodol. Mewn gair, bydd yn rhaid i ni feddwl am ffyrdd hollol newydd o ddefnyddio a chynhyrchu ynni. Mae gan sefydliadau lleol lawn gymaint o ddyletswydd â llywodraethau cenedlaethol i weithredu, ac y mae'n rhaid i'r cyrff sy'n cael eu cynrychioli ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol y Fro fod yn batrwm i bawb arall.

## Addasu i Newid Hinsawdd

Mae cynhesu byd-eang yn ffaith, ac y mae'n debyg y bydd mwy o lifogydd, erydu tiroedd, systemau draenio a charthffosiaeth annigonol a phroblemau gydag ansawdd dŵr ac aer o ganlyniad. Mae dyletswydd ar bob cymuned i gwtogi ddigon ar y nwyon sy'n cael eu gollwng er mwyn gwrthsefyll effaith hyn i gyd. Gan hynny, dylai pob sefydliad sy'n perthyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol fynd ati i gwtogi ar ollyngiadau carbon fel mater o flaenoriaeth yn ogystal â datblygu polisiâu newydd.

## Diogelu Bwyd

Gallai poblogaeth gynyddol, newid yn yr hinsawdd, cost a defnydd tir, arferion cyflenwi a'r duedd i'r economi ddatblygu ar raddfa fyd-eang esgor ar bob math o amgylchiadau lle byddai bwyd yn brin am na allwn ateb y galw amdano. Gallai asiantaethau lleol chwarae rhan allweddol yn y frwydr yn erbyn y bygythiad hwn drwy brynu bwyd yn lleol a gwastraffu llai ohono.

## Newid Technolegol

Mae technoleg sy'n datblygu'n gyflym yn llawer mwy atebol i ymdrin â phroblemau. Dylem felly groesawu'r holl ddatblygiadau mewn meysydd fel rheoli gwybodaeth, efelychu a modelu, technoleg gofal iechyd, cyfathrebu ar-lein a'r lluo o gymwysiadau busnes.

## Adnoddau

Mae'n rhaid i ni reoli'r holl newid hwn yng nghanol y dirwasgiad economaidd gwaethaf ers hanner canrif, tra bod y problemau ynglŷn ag arian cyhoeddus yn prysur droi'n argyfwng. Tywyll yw'r rhagolygon ar gyfer pob haen o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Gan hynny, bydd yn rhaid i ni ail-greu, ailffurfio ac aildrefnu gwasanaethau yn ôl blaenoriaeth yn ystod oes y Strategaeth Gymunedol hon er mwyn gallu cynnal ein canlyniadau. Dod i ben ar lai o arian fydd y nod yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol y Fro bellach wedi dechrau ar y gwaith anodd o archwilio problemau a allai godi yn y dyfodol. Er mor bwysig yw hynny, gwyddor anfanwl bob tro yw pwyso a mesur y dyfodol am fod hwnnw o reidrwydd yn llawn posibiladau di-ben-draw sy'n gwbl amhosibl eu rhagweld. Serch hynny, bydd yn rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol bellach sicrhau bod ganddo raglen benodol sy'n archwilio ac yn pwyso a mesur effaith pob tuedd yn y dyfodol ac yn adolygu polisiâu ac arferion presennol yng ngoleuni hynny. Am ei bod yn dasg mor fanwl, y mae'n amlwg na chaiff ei gwneud dros nos nac yn ystod un sesiwn gynllunio'n unig. Bydd yn cymryd amser a bydd angen lluo o asiantaethau er mwyn bwrw'r maen i'r wal.

Gan hynny, dogfen dros dro yw'r Strategaeth Gymunedol. Bydd y blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y penodau canlynol yn dal yn ddilys, a bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a phartneriaethau allweddol yn dal i'w monitro. Serch hynny, bydd yn rhaid eu hadolygu yn eu tro yng ngoleuni'r problemau ehangach y soniwyd amdanynt eisoes. Byddwn yn llunio Cynllun Gweithredu cynaliadwy er mwyn cwblhau'r Strategaeth hon sy'n dilyn y prif egwyddorion cynaliadwy ar gyfer byw'r tu fewn i gyfyngiadau amgylcheddol. Wrth wneud hynny, byddwn yn magu cymdeithas gref, iach a heini ac economi iach, gadarn a chynaliadwy gan sicrhau bod pob sefydliad partner yn gweithredu ac yn cael ei reoli'n dda.



Beistonwyr yn Southerndown



## Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

### Cyflwyniad

Mae iechyd a lles pobl leol yn hanfodol i ffyniant Bro Morgannwg, ac y mae'n dal yn un o'r mannau gorau yng Nghymru i fyw sy'n cynnwys rhai o gymunedau cyfoethocaf y wlad.

Dengys y rhan fwyaf o ddangosyddion ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a lles fod y sir yn perfformio'n well na Chymru'n gyffredinol, er bod y ffigurau hyn yn cuddio'r problemau sydd i'w cael mewn rhai ardaloedd. Mae amddifadrwydd mewn rhannau o'r Barri er enghraifft, gyda'r gwaethaf yng Nghymru, a bydd pobl sy'n byw yn ardaloedd gwledig y Fro'n aml yn cael anhawster i ddefnyddio gwasanaethau.

Mae tystiolaeth gref bod nifer o ffactorau penodol yn effeithio ar iechyd pobl a gellir eu rhestru fel y canlyn:

- Ffactorau cymdeithasol – y cyfle sydd gennym i fyw mewn cymuned leol gref a chefnogol, er enghraifft,
- Ffactorau economaidd – y cyfle sydd gennym i gael gwaith cyflogedig
- Ffactorau amgylcheddol – ein ffordd o gynllunio'n trefi ac effaith ein tai arnom.

Mae dyletswydd ar bob unigolyn, cymuned, cyngor lleol, gwasanaeth iechyd (gan gynnwys gwasanaethau ac ysbytai sylfaenol a chymunedol) a phob sefydliad yn y sectorau gwirfoddol a phreifat i helpu i wella iechyd y boblogaeth.

Os ydym am drin rhai o'n problemau iechyd pwysicaf heddiw ac yn y dyfodol, bydd yn rhaid i asiantaethau allweddol gydweithio er mwyn cael dod â newidiadau a all wella iechyd a lles.

Mae pob un o'r prif achosion marwolaeth sef clefyd y galon, trawiad ar yr ymennydd a chanser yn digwydd yn llai aml yn y Fro ar gyfartaledd nac yng Nghymru'n gyffredinol.

O safbwynt rhai o'r prif beryglon i iechyd:

- 52.9% o oedolion y Fro sy'n dew neu'n ordew o'u cymharu â 54.1% yng Nghymru'n gyffredinol.
- 27.7% o oedolion yn unig sy'n gwneud digon o ymarfer corff yn ôl y canllawiau lleiaf sef ychydig yn llai nag yng Nghymru'n gyffredinol.
- 40.3% o oedolion y Fro a ddywedodd eu bod yn yfed mwy o alcohol ar gyfartaledd nag sy'n cael ei argymhell o'u cymharu â 39.8% yng Nghymru'n gyffredinol.
- Mae nifer yr achosion o heintiau sy'n cael eu trosglwyddo'n rhywiol yn cynyddu ym mhob rhan o Gymru.



Erobeg step yng Nghanolfan Hamdden y Barri



Hwyl yn y pwll peli

## Materion Strategol

### 1. Hybu a gwella iechyd a lles

Yn ystod y 10 mlynedd nesaf, bydd yn rhaid i'r gymuned iechyd a gofal cymdeithasol ganolbwyntio o'r newydd ar hybu a gwella iechyd cyn i bobl ddechrau mynd yn sâl. Bydd yn rhaid iddi hefyd drin y diffyg cydraddoldeb mewn gwasanaethau iechyd yn hytrach na bodloni'n unig ar ddarparu gwasanaethau ar ôl i bobl fynd yn sâl.



Tywel bach twym

Mae'n rhaid annog unigolion a chymunedau i wneud cymaint fyth ag y gallant i ddod yn iachach drwy fwyta'n iach, gwneud ymarfer corff, rhoi'r gorau i ysmegu, cadw meddwl iach a gofalu am eu hiechyd rhywiol. Bydd yn rhaid hefyd sicrhau bod y camau presennol ar gyfer gwella iechyd yn cael eu datblygu gyda golwg ar yr hyn sydd yn ôl y dystiolaeth yn debyg o weithio.

Bydd angen ystyried datblygiadau newydd fel y Coleg Technegol Amddiffyn yn Sain Tathan sy'n debyg o newid maint a ffurf y boblogaeth. Mae'n bosibl y bydd anghenion iechyd penodol ar y poblogaethau newydd sy'n symud i mewn.

Mae'n rhaid i asiantaethau gydweithio er mwyn cael canolbwyntio'n fwy ar y ffactorau sy'n penderfynu ar iechyd pobl a sicrhau'r canlyniadau mwyaf positif. Dylid targedu'r rhai mwyaf anghenus a mynd ati i ymdrin â diffyg cydraddoldeb o safbwynt iechyd. Mae Canolfannau Hamdden y cyngor eisoes yn cydweithio'n dda â'r rhai sy'n cael eu cyfeirio atynt ar gyfer sesiynau adfer y galon. Bwriadwn ymestyn y cynllun cyfeirio am ymarfer corff yn y dyfodol er mwyn helpu pobl i ymdopi â chlefyd yr ysgyfaint, problemau'r cefn, effaith trawiad ar yr ymennydd a phroblemau iechyd meddwl.

### 2. Aros yn annibynnol


Mater o flaenoriaeth i bob sefydliad sy'n gweithio er mwyn hybu iechyd a lles yw sicrhau bod pobl yn cael byw bywyd llawn ac annibynnol. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd yn rhaid i'r Fro gefnogi rhai grwpiau'n arbennig er mwyn eu helpu i aros yn annibynnol. Am ein bod yn rhagweld y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y rhai dros 65 oed ac yn benodol y rhai dros 80 oed, bydd angen newid a gwella gwasanaethau er mwyn ateb y galw tebygol.

Mae angen gwneud y gorau o'r hyn sy'n cael ei gynnig gan telecare a telemedicine. Bydd yn rhaid i asiantaethau gynllunio a datblygu gwasanaethau er mwyn ymdopi â'r galw cynyddol sylweddol a ragwelir am gymorth yn y cartref a chymorth preswyl i rai sy'n dioddef o ddryswch a mathau eraill o afiechyd meddwl. Bydd angen gwasanaethau hefyd ar gyfer pobl iau sy'n dioddef o ddryswch. Bydd mwy o bwysau arnom ar hyd yr amser i ddatblygu gwasanaethau ar draws ffiniau trefniadol.

### 3. Rheoli clefydau parhaol

Daw gofalu am bobl sy'n dioddef o glefyd parhaol fel y clefyd melys, mogiant neu glefyd y galon, er enghraifft, yn bwysicach fyth yn ystod y degawd nesaf. Bydd angen gwella ac integreiddio gwasanaethau er mwyn cael cynnig mwy o wasanaethau gwell yn lleol.

Bydd yn rhaid sicrhau bod gwasanaethau'n haws eu defnyddio a bod cleifion a gweithwyr proffesiynol yn cyfathrebu â'i gilydd yn well.



Cerdded ar y traeth

Mae'n rhaid i ni ostwng lefel afiechyd a nifer yr achosion o gleifion yn cael eu derbyn i'r ysbyty ar frys yn ddiangen, a hefyd wella'n cyhoeddusrwydd ynglŷn â chadw'n iach.

#### 4. Plant a Phobl Ifanc

Drwy sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael byw bywydau llawn, diogel ac iach yn eu cymunedau eu hunain a gwneud y gorau o'u doniau, rydym yn gosod sylfaen ar gyfer dyfodol mwy unedig, cynhwysol a ffyniannus i bawb.



Seiclo yn y Fro



Cadw'n heini ym mhob oedran

Serch hynny, y mae'n bosibl mai'r plant presennol fydd y genhedlaeth gyntaf i gael oes fyrrach na'u rhieni, am eu bod yn rhy dew, er enghraifft. Mae llawer o resymau pur gymhleth am hyn, a bydd ffactorau cymdeithasol,

economaidd ac amgylcheddol hefyd yn dylanwadu ar y sefyllfa. Ni fydd plant o gefndir cymharol gyfoethog o angenrheidrwydd yn iach. Nid yw'r ffordd fodern o fyw a'r holl ddewis sy'n gysylltiedig â hynny o angenrheidrwydd yn ffordd iach o fyw.

Mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc a Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008-11 yn cynnig ffordd amlasiantaethol o ymdrin â llawer o'r problemau hyn. Serch hynny, bydd yn rhaid symleiddio a datblygu'r gweithgareddau yn ystod y degawd nesaf wrth i gynnydd gael ei wneud, a hefyd ailasesu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd mor ddefnyddiol ac atebol ag sy'n bosibl.

#### Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

##### 1. Gweithio er mwyn dylanwadu ar ffactorau sy'n penderfynu ar iechyd

- Addysgu pobl ynglŷn â ffactorau a allai effeithio ar eu hiechyd
- Cydweithio yn ystod y 10 mlynedd nesaf er mwyn dylanwadu ar y ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n helpu i wella iechyd
- Ymestyn cynllun ffrwythau a llysiau noddedig i gymunedau difreintiedig
- Cydweithio â sefydliadau eraill er mwyn gostwng lefelau gordewdra, ysmygu ac yfed
- Cynnig gwell gwybodaeth i bobl er mwyn iddynt gael dod i benderfyniadau doeth ynglŷn â ffactorau a allai effeithio ar eu hiechyd yn y tymor hir

##### 2. Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig

- Dod i weithio'n well ar draws ffiniau trefniadol er mwyn cael manteisio ar adnoddau'r holl gymuned iechyd a gofal cymdeithasol
- Datblygu gwasanaethau llai biwrocraidd a gwastraffus sy'n gallu darparu'n effeithiol ar gyfer anghenion pobl leol
- Datblygu timau integredig sy'n cynnal gwasanaethau'n llwyr er mwyn yr unigolyn ac yn eu darparu'n brydlon ac mewn ffordd ddifai

### 3. Y Rhwydwaith Mewnol

- Sicrhau bod y gymuned iechyd a gofal cymdeithasol yn gwneud defnydd effeithiol o'i rhwydwaith mewnol wrth ddarparu gwasanaethau

### 4. Adnoddau

- Sicrhau bod asiantaethau'n manteisio ar eu hadnoddau er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer pobl leol
- Sicrhau bod staff y sector iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u hyfforddi'n dda ar gyfer darparu gwasanaethau o safon sy'n bodloni anghenion pobl Bro Morgannwg
- Adolygu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fodloni anghenion ar hyn o bryd, yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael

### 5. Buddsoddi mewn iechyd gwell

- Helpu pobl leol i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain a'u cefnogi
- Sicrhau bod sefydliadau'n buddsoddi mewn gwasanaethau a ffyrdd o weithredu sy'n helpu i'n cadw rhag mynd yn sâl neu'n anghenus
- Hybu'r adnoddau sydd ar gael eisoes (e.e. gweithgareddau chwarae, caeau chwarae, parciau gwledig, canolfannau hamdden a llwybrau cerdded) sy'n helpu pobl i fyw'n iach



### 6. Cefnogi gofalwyr

- Gwneud mwy i gefnogi gofalwyr gan gofio bod hynny'n helpu pobl i aros yn y gymuned am fwy o amser
- Datblygu ac ymestyn gwasanaethau ar gyfer gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer eu hanghenion ac yn ddigon hyblyg i ymateb i ofynion newydd yn y dyfodol
- Ymgynghori â gofalwyr yn y Fro er mwyn gallu parhau i'w cefnogi

### 7. Cydweithio â phobl leol

- Newid ein ffordd o gynllunio a darparu gwasanaethau drwy ymgynghori â phobl ym mhob rhan o'r Fro fel rhan o gynllun ailwampio gwasanaethau
- Helpu pobl leol i ddeall bod angen newid, a'u hannog i gydweithio ag asiantaethau allweddol er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau effeithiol o safon yn y Fro
- Sicrhau bod trefn dda ar gael ar gyfer siarad â phobl leol, gwrando ar eu barn a'u cynnwys ym mhrif ddadleuon y dyfodol a'r penderfyniadau y bydd yn rhaid eu gwneud er mwyn i bawb gael gwasanaethau y gallant ymfalchïo ynddynt

## Dysgu a Sgiliau Gydol Oes

### Cyflwyniad

Er mwyn cael dyfodol ffyniannus a chynaliadwy yn y Fro, y mae'n rhaid sicrhau bod safon dda o addysg. Dylai fod gan y drefn Dysgu Gydol Oes ddiwylliant ddysgu sy'n cynnwys pawb, yn helpu grwpiau llai breintiedig yn arbennig i fanteisio arni ac yn annog pobl i fod yn weithgar yn eu cymunedau.

Mae gan saith ysgol gyfun yn y Fro chweched dosbarth sy'n cynnig cyrsiau Lefelau 2 a 3 (sy'n cyfateb i gyrsiau TGAU a safon uwch) i'w myfyrwyr. Mae dwy o'r rhain ym Mhenarth, tair yn y Barri a phob o un yn y Bont-faen a Llanilltud Fawr. Ysgol Bro Morgannwg yw ysgol uwchradd Gymraeg y Fro sydd hefyd yn y Barri. Yn ogystal â'r rhain, y mae ysgol Babyddol yn y Fro ar gyfer plant rhwng 11 ac 16 oed. Mae tair ysgol arbennig hefyd sy'n darparu ar gyfer plant o bob oedran gan gynnwys rhai dros 16 oed.

Bydd ysgolion uwchradd y Fro'n cael eu bwydo gan glystyrau o ysgolion meithrin a chynradd a



Dysgu yn y llyfrgell



Sgiliau newydd ar ôl ymddeol

bydd plant fel arfer yn symud ymlaen i'r ysgol uwchradd yn eu cymdogaeth yn 11 oed.

Coleg y Barri yw prif goleg addysg bellach y Fro. Mae ganddo bum campws sef tri yn y Barri, Canolfan Ryngwladol Hyfforddiant

Awyrofod yn y Rhws a'i ganolfan adeiladu yng Nghaerdydd. Er bod peth darpariaeth ar gyfer TGAU a safon uwch yng Ngholeg y Barri, bydd yn cynnig cyrsiau gwirfoddol ran amlaf.

Mae mwy na 4000 o bobl yn mynychu dosbarthiadau mewn canolfannau addysg i oedolion ac amryw o ganolfannau allanol yn y Fro. Er bod pob math o gyrsiau'n cael eu cynnig gan wahanol bartneriaid, gan gynnwys rhai o'r sector gwirfoddol, Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes Cyngor Bro Morgannwg sy'n darparu'r rhan fwyaf ohonynt.

Bydd llawer o wahanol sefydliadau'n cynnig cyrsiau hyfforddi i drigolion y Fro. Mae'r rheiny'n cynnwys sefydliadau preifat, estyniadau o golegau addysg bellach, sefydliadau hyfforddi cenedlaethol neu gynghorau sgiliau sector, llywodraeth leol, prifysgolion a'r lluoedd arfog.

### Materion Strategol

1. Parhau i wella cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol plant a phobl ifanc sydd o oedran ysgol ac yn hŷn.

Mae safon addysgu a dysgu mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill y Fro gyda'r uchaf yng Nghymru bob amser. Eto i gyd, y mae pob argoel bellach fod disgyblion yn dechrau gwneud llai o gynnydd nag o'r blaen ym mhob cyfnod allweddol. Mae safon cyrhaeddiad disgyblion hefyd yn amrywio'n sylweddol o ysgol i ysgol a'r tu fewn i ysgolion unigol mewn ffordd sy'n anghydnaws â chyfansoddiad economaidd-gymdeithasol gwahanol ddalgyloedd yr ysgolion hyn.

## 2. Sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus

Mae'r term 'bregus' yn disgrifio pob math o blant, gan gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig, anghenion meddygol ac anawsterau ymddwyn, aelodau o leiafrifoedd ethnig, plant mewn gofal, gofalwyr ifainc a rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae'r garfan gynhwysfawr hon o blant a phobl ifanc yn lleiafrif weddol fawr o'r boblogaeth sy'n llawer mwy tebyg na'r rhelyw o fod yn ddi-waith a pheidio â dilyn cyrsiau addysg neu hyfforddi.

## 3. Mynd ati'n gyson i ddatblygu rhwydwaith mewnol y gyfundrefn addysg

Yn ôl ein strategaeth ar gyfer buddsoddi mewn ysgolion, y mae angen adnewyddu neu ailadeiladu tair ysgol uwchradd yn y Fro, a phenderfynu ar y gost o wella'r gweddill, er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn 'addas i'w phwrpas'. Mae hefyd yn bosibl y bydd Coleg y Barri a Choleg Glan Hafren yn uno ac yn gallu cynnig cwricwlwm ehangach i fyfyrwyr lleol a rhoi mwy o gyfle i ddysgwyr rhwng 14 ac 19 oed ddilyn cyrsiau'r sector gwirfoddol.

## 4. Gweithlu medrus iawn

Mae Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol wedi gosod targedau ar gyfer gostwng lefel diffyg sgiliau sylfaenol ymhlith oedolion erbyn 2010. Mae lefelau llythrennedd a/neu rifedd mewn tair ar ddeg o'r tair ward ar hugain yn y Fro'n is na'r targedau cenedlaethol hyn ar hyn o bryd.

Mae Strategaeth Sgiliau Sylfaenol y Fro'n nodi'r grwpiau o ddysgwyr a ddylai gael blaenoriaeth, a rhannau o'r Fro lle mae diffyg sgiliau sylfaenol ar ei waethaf.

Mae gallu i drafod TG hefyd yn sgil sylfaenol sydd angenrheidiol bellach yn y cartref a'r gwaith. Mae 40% o fusnesau a soniodd am ddiffyg sgiliau wedi cadarnhau eu bod yn ddiffygiol o safbwynt sgiliau TG.

Erbyn hyn, bydd y Gymraeg yn cael ei dysgu yn holl ysgolion y Fro fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd llawer o blant yn mynd i ysgol Gymraeg er eu bod yn dod o gartrefi di-gymraeg. Serch hynny, ni fydd gan yr oedolion sy'n gweithio gyda phobl ifanc y sgiliau iaith angenrheidiol bob amser.

Mae disgwyl i dros 1,000 o swyddi gael eu creu wrth godi'r Coleg Technegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod newydd, modern yn Sain Tathan. Gallai'r nifer honno esgyn i 5,000 wedyn pan fydd yr holl safle'n weithredol ac yn cael effaith gynyddol ar gyflenwad a galw yn yr ardal. Am fod y datblygiadau hyn mor fawr, bydd cryn bwysau hefyd ar y rhwydwaith dysgu a hyfforddi i ymateb i'r galw am sgiliau.



Pentref Canoloesol Cosmeston, Penarth



Haul isel dros Ynys y Barri

## 5. Helpu'r rhai di-waith i ddod o hyd i swyddi

Er bod llai o ddiweithdra yn y Fro ar gyfartaledd nag yng Nghymru'n gyffredinol, y mae'r ffigur ar gyfer ambell i ward yn y Barri a Llanilltud Fawr yn llawer uwch na'r ffigurau lleol a chenedlaethol ac yn peri pryder. Os ydym am gael cymdeithas fwy ffyniannus y mae'n hanfodol bwysig i ni fynd ati i feithrin sgiliau pobl ddi-waith.

## 6. Addysg i Oedolion yn y Gymuned

Mae Addysg i Oedolion yn y Gymuned yn arbennig o bwysig o safbwynt ennyn diddordeb grwpiau difreintiedig. Mae hefyd yn ffordd o gyflwyno addysg i bob math o ddysgwyr sy'n gyndyn i ddilyn cyrsiau mwy ffurfiol.

## 7. Ysgolion Bro

Mae'r cyngor wedi sefydlu pum clwstwr o ysgolion bro erbyn hyn. Mae llawer o gyfle i ddatblygu'r fenter hon er mwyn helpu i addysgu disgyblion, teuluoedd, oedolion a chymunedau a hefyd wella'r ffordd y byddwn yn cyd-drefnu ac integreiddio gwasanaethau ar gyfer plant a'u cynnig i'r gymuned.

### Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

#### 1. Parhau i wella cyrhaeddiad addysgol

- Cydweithio'n fwy ag ysgolion a sefydliadau addysgol eraill a Gyrfa Cymru
- Datblygu llwybrau dysgu newydd a dulliau newydd o symud ymlaen ar gyfer plant rhwng 14 ac 19 oed
- Rhoi mwy o gefnogaeth, cyfarwyddyd a chyngor i bob person ifanc sy'n gofyn am hynny
- Datblygu a darparu strategaeth drefnus er mwyn sicrhau bod llai o bobl ifanc yn cael eu gadael y tu allan i brif ffrwd addysg a gwaith
- Rhoi mwy o gyfle i blant chwarae a chymryd rhan mewn adloniant gweithredol

#### 2. Sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer grwpiau bregus

- Darparu adnoddau er mwyn ateb gofynion pobl ifanc bregus
- Sicrhau bod addysg a gwasanaethau eraill yn cydweithio mewn ffordd integredig er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl i grwpiau bregus



Ysgol Gynradd Heol Albert, Penarth



Hen Neuadd y Bont-faen

### 3. Gweithlu medrus iawn

- Annog holl ddarparwyr sgiliau sylfaenol yn y Fro i gydweithio er mwyn datblygu eu darpariaeth ymhellach a chefnogi Strategaeth Sgiliau Sylfaenol y Fro
- Chwilio am ragor o adnoddau er mwyn cael cyrraedd y nod hwnnw
- Sicrhau bod cyrsiau sefydliadau addysg a hyfforddiant lleol wedi'u seilio ar set benodol o gymwyseddau a'u bod yn ateb gofynion y rhan fwyaf o gyflogwyr sydd am eu defnyddio
- Cynnal rhaglen fwy pwrpasol ac ehangach o gyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y Fro sy'n darparu ar gyfer rhieni, mewnfydwyr, addysgwyr a'r gweithle
- Sicrhau bod y llwybrau dysgu newydd ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed yn cynnig pob math o opsiynau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Cymryd pob cam ymarferol er mwyn sicrhau bod y rhwydwaith hyfforddi lleol, ehangach yn helpu'r gweithlu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle y bydd y Coleg Technegol Amddiffyn newydd yn Sain Tathan yn ei gynnig
- Gan mai ardaloedd dinesig bellach yn gyrru cystadleuaeth a thwf economaidd, bydd angen codi lefelau sgiliau ym meysydd adeiladu, adwerthu, arlwygo a'r diwydiant croesawu. Bydd yn rhaid sicrhau bod mwy o hyfforddiant mwy perthnasol ar gael yn y sectorau hyn er mwyn i bob rhan o'r ardal gan gynnwys y Fro gael manteisio ar y ffyniant



Llyfrgell y Bont-faen

### 4. Helpu'r di-waith i ddod o hyd i swyddi

- Nid mater o feithrin sgiliau sylfaenol yn unig yw paratoi pobl ddi-waith ar gyfer byd gwaith. Mae'n rhaid datblygu eu sgiliau galwedigaethol a chynnalwedigaethol hefyd. Gan hynny bydd angen sicrhau bod cyfle iddynt symud ymlaen at addysg bellach a hyfforddiant mewn swydd
- Mae'n bwysig gweithredu yn ystod pob rhan o'r broses ddysgu ac y mae'n arbennig o bwysig datblygu llwybrau addysg a hyfforddiant mwy hyblyg a threfnus ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed
- Datblygu gwasanaethau integredig mewn ysgolion cymunedol
- Sicrhau bod swyddi newydd ar gael ac o fewn cyrraedd i bobl leol



Ramp sgialu, Canolfan Hamdden Penarth, Cogan



Testyn edmygedd, Celf Ganolog, y Barri



## Plant a Phobl Ifanc

### Cyflwyniad



Hwyl Pêl Fasged

Bydd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y Fro'n cael digon o wybodaeth a help i ddefnyddio pob math o wahanol wasanaethau. Byddant wedyn yn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfle mewn bywyd sydd gan eu cymunedau eu hun a rhai pellach i ffwrdd i'w gynnig iddynt.

Lluniwyd Cynllun cyntaf tair blynedd (2008-2011) Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Dyma'r datganiad diffiniol o fwriadau a blaenoriaethau cynllunio strategol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc yn yr ardal.

Mae Cynllun Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc y Fro wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:-

- darparu gwasanaethau'n ôl angen;
  - rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddweud eu barn;
  - targedu a rhoi blaenoriaeth i'r rhai mwyaf anghenus;
  - cynllunio ar gyfer osgoi problemau neu'u datrys drwy ymyrryd yn gynnar;
  - sicrhau bod ein holl wasanaethau'n diogelu plant a phobl ifanc;
  - parchu amrywiaeth a sicrhau bod cyfle cyfartal i bawb;
  - cynnig dewis o wasanaethau pan fo hynny'n addas;
  - cymell pobl i gydweithio a darparu gwasanaethau integredig;
- cydweithio'n agos â phob partneriaeth a darparwr gwasanaethau arall;
  - gosod trefn amlwg ar gyfer atebolrwydd, llenwi unrhyw fylchau yn y gwasanaeth a cheisio osgoi dyblygu gwaith.



Chwaraeon i bob person ifanc

### Materion Strategol

#### 1. Cychwyn cadarn mewn bywyd.

Mae gwasanaethau mamolaeth, ymwelwyr iechyd a chymorth teuluol o safon yn hanfodol bwysig, ac y mae rhaglen Cychwyn Cadarn sy'n cael ei gweithredu yn y wardiau mwyaf anghenus yn tystio i'n ffordd amlasiantaethol o weithio. Er bod nifer o leoliadau ar gyfer teuluoedd sy'n chwilio am ofal i blant rhwng 0 a 14 oed, y mae diffyg darpariaeth yn y Gymraeg a diffyg gwasanaethau ar draws y Fro'n peri pryder.

#### 2. Pob math o gyfle i ddysgu a manteisio ar addysg.

Mae'r cyngor yn cydweithio'n agos ag ysgolion er mwyn datblygu rhwydwaith o gymunedau dysgu a gwasanaethau a gweithgareddau o bob math sy'n darparu ar gyfer anghenion plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau. Bydd yr ysgolion cymunedol newydd a'r agenda sgiliau cenedlaethol newydd o gymorth mawr i ni wireddu'r weledigaeth honno. Yn ogystal â darparu ar gyfer plant â phob math o anghenion arbennig, bydd yn rhaid mynd i'r afael â phroblemau presenoldeb, ymddwyn a bwlio, a bydd hynny'n gofyn am gymorth rhieni a gofalwyr. Mae pobl ifanc ddi-waith nad ydynt yn dilyn unrhyw gyrsiau addysg na hyfforddiant hefyd yn destun pryder arbennig.



Tŷ a Gerddi Dyffryn

### 3. Plant yn cael byw'n iach heb eu cam-drin, eu herlid na'u hecsbloetio.

Pan fydd angen gwasanaethau gofal neu iechyd ar blant a'u teuluoedd, dylai'r gwasanaethau hynny fod yn drefnus iawn ac yn hawdd pontio rhyngddynt. Er mwyn i blant a phobl ifanc gael gwireddu eu potensial llawn, y mae'n rhaid eu cadw'n iach ac yn heini. Er eu lles gorau felly, bydd angen gwasanaethau ardderchog sy'n ymdrin ag iechyd meddwl ac iechyd emosiynol a rhywiol ac yn helpu i gadw pobl ifanc rhag camddefnyddio sylweddau.

### 4. Cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, chwarae, hamdden a chwaraeon.

Mae hyn yn hanfodol er mwyn i bob plentyn a pherson ifanc gael byw bywyd iach a heini. Bydd partneriaid yn annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon drwy weithio mewn ysgolion a chydweithio â chlybiau a chymdeithasau chwaraeon ymhobman. Gallwn hefyd adolygu tâl mynediad a threfn daliadau canolfannau hamdden y cyngor, a chwilio am y ffyrdd mwyaf diogel o'u cyrraedd fel y bo'n haws i bobl ifanc eu defnyddio.

Mae cynllun Chwaraeon y Ddraig ar gyfer ysgolion cynradd, a rhaglen '5x60' mewn ysgolion uwchradd, sy'n argymhell 60 munud o ymarfer corff bum gwaith yr wythnos, yn sicrhau bod plant yn gwneud mwy o ymarfer corff. Cafodd y ddau gynllun hwn eu cyflwyno drwy raglen noddi Cyngor Chwaraeon Cymru.



Gwthio fy chwaer

### 5. Parchu plant a chydabod eu hil a'u tras ethnig.

Cam cyntaf pwysig yn y broses hon fydd datblygu a chyflwyno strategaeth gyfranogi leol. Hefyd, y mae'n rhaid sicrhau bod y drefn chwyno ar gyfer pob gwasanaeth yn hawdd i blant ei defnyddio.



Torf Gŵyl y Glannau

### 6. Cartref diogel a chymuned sy'n cynnal lles emosiynol a chorfforol plant.

Mae Partneriaeth Bro Ddiogelach yn gyfrifol am bob aelod o'r gymuned. Beth bynnag a fo dan sylw, boed ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a throseddu cyson, cam-drin yn y cartref, bwlio neu ddigartrefedd, ein prif nod yw atal problemau plant a phobl ifanc, yn hytrach na thrin y canlyniadau.

### 7. Byw heb anfantais tlodi.

Mae Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn awyddus i ddileu tlodi ymhlith plant a gweithio er lles y rhai mwyaf anghenus. Er nad diffyg incwm sy'n gyfrifol am dlodi bob amser, dyna'r prif achos. Mae rhai plant a phobl ifanc hefyd yn dlawd o safbwynt gwasanaethau am na fydd gwasanaethau ar eu cyfer ym mhob rhan o'r ardal a'i bod yn anodd iddynt eu cyrraedd a'u defnyddio.

## Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

### 1. Trefniadau ar gyfer pontio

- Helpu plant, yn enwedig rhai bregus ac anniddig, i bontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd
- Dod o hyd yn gyflym i'r rhai sydd debycaf o'u cael eu hunain ymhlith y bobl ifanc ddi-waith sydd heb le ar unrhyw gwrs addysg na hyfforddi, a gweithio gyda hwy yn y ffordd fwyaf ymarferol
- Ymestyn y cwricwlwm ar gyfer pobl ifanc sydd eisoes wedi'u gwahardd neu mewn perygl o gael eu gwahardd
- Gwellu'r trefniadau pontio ar gyfer pob person ifanc sy'n defnyddio nifer o wasanaethau ar yr un pryd ac yn dechrau defnyddio gwasanaethau ar gyfer oedolion

### 2. Rhannu Gwybodaeth



- Darparu fframwaith a chanllawiau eglur ar gyfer pob partneriaeth a sefydliadau cysylltiedig er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i rannu gwybodaeth
- Sicrhau bod pob asiantaeth yn gallu cynllunio'n fwy effeithiol mewn partneriaeth er mwyn cael gwneud y mwyaf o adnoddau, rhannu gwybodaeth a chydweithio â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl
- Datblygu rhaglenni ynglŷn â thrin ac atal troseddu sy'n cael eu darparu ar gyfer plant ifanc ar hyn o bryd, a'u hysbysebu'n amlach yn y gymuned
- Dod o hyd i unrhyw blant sy'n dystion i gamdriniaeth yn y cartref neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin eu hunain, ac ymyrryd yn gynnar
- Datblygu a lleadaenu cyngor a gwybodaeth am dai sy'n berthnasol i bobl ifanc, yn enwedig gwybodaeth a allai eu cadw rhag mynd yn ddigartref neu'u helpu i ymdopi â thai gwael neu orlawn

### 3. Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y rhai mwyaf anghenus

- Gwellu'r trefniadau a'r systemau rhwng gweithwyr proffesiynol a sefydliadau er mwyn sicrhau bod plant ag anghenion cymhleth sy'n dechrau dod i'r amlwg yn cael eu nodi a'u cefnogi yn y ffordd fwyaf trefnus
- Helpu gwasanaethau arbenigol i wneud mwy i gefnogi ysgolion, gwasanaethau iechyd sylfaenol a gwasanaethau cymdeithasol sy'n cydweithio â theuluoedd ag anghenion cymhleth sy'n dechrau dod i'r amlwg

### 4. Datblygu strategaeth magu plant amlasiantaethol

- Datblygu a gweithredu strategaeth magu plant a gwerthoedd teuluol ar gyfer yr holl Fro sy'n berthnasol i bob oedran. Bydd y strategaeth yn gwahodd rhieni i helpu i godi safon gyflawni a sicrhau bod mwy o blant yn mynychu'r ysgol yn gyson. Bydd hefyd yn cynnwys rhieni mewn cynlluniau i ddarparu gwasanaeth cyngori ar gyfer teuluoedd a fu'n dioddef oherwydd trais yn y cartref, a sicrhau bod plant yn ymddwyn mewn ffordd dderbyniol yn yr ysgol a'r gymuned

## 5. Rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar wasanaethau

- Datblygu strategaeth gyfranogi amlasiantaethol ar gyfer pobl rhwng 0 a 25 oed
- Sefydlu, gweithredu a monitro rhwydweithiau cynghorau ysgolion, fforwm ieuencid y Fro a chynghor ieuencid y Fro
- Sefydlu gwasanaeth eiriol lleol
- Sefydlu grŵp amlasiantaethol cynrychioliadol er mwyn cael nodi anghenion grwpiau diwyll liannol presennol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

## 6. Helpu gweithwyr proffesiynol i gyflawni mwy

- Archwilio pob angen am ddatblygu a hyfforddi gweithlu Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn drwyadl
- Datblygu strategaeth datblygu'r gweithlu ar gyfer plant a phobl ifanc



## Diogelu'r Gymuned

### Cyflwyniad

Mae Partneriaeth Bro Ddiogelach am greu ardal lle y caiff pobl fyw, gweithio a threulio eu hamser heb orfod poeni am droseddu ac anhrefn na dioddef o'u herwydd. Cofnodwyd llai o droseddau bob blwyddyn yn gyson ers 2003/04 (ac eithrio yn ystod 2006/07) a 12.4% o droseddau'n gyffredinol ers y flwyddyn honno.

Roedd ein perfformiad yn well o lawer yn 2008/09 nag yn ystod y flwyddyn flaenorol. O'r 13 o gategoriâu o droseddu dan sylw, dau'n unig oedd wedi cynyddu, sef troseddu rhywiol ac anafu neu weithredu mewn ffordd arall sy'n peryglu bywyd. Troseddu'n ymwneud â dwyn a gollodd y mwyaf o dir, gyda gostyngiad o 29% yn nifer yr achosion o ddwyn o dai, 13% yn nifer yr achosion o ddwyn o foduron a 10% yn nifer yr achosion o ddwyn moduron. Er i nifer yr achosion o ddifrod troseddol ostwng o 7%, y mae'n dal yn fwy cyffredin na phob trosedd arall. Bu gostyngiad o 4% yn nifer y troseddau sy'n ymwneud â chyffuriau, ond y mae'r ffigur yn dal yn uwch nag yn ystod blwyddyn gyntaf yr arolwg sef 2003/4.



Gatiau pen lôn yn y Barri

### Materion Strategol

#### 1. Trais yn y cartref

Mae'n anodd amcangyfrif faint o drais sy'n digwydd yng nghartrefi'r Fro na chyfrif union gost hynny. Trosedd cudd yw trais yn y cartref erioed sy'n anodd ei fesur yn llwyr oherwydd hynny. Hefyd, bydd y rhai sy'n cyflawni'r trosedd hwn yn aml yn cael eu cyhuddo o bob math o droseddau eraill gan gynnwys cwrso'n llechwraidd, ymosodiad cyffredin a llofruddiaeth.

Serch hynny, wrth edrych ar y ffigurau sydd wedi'u cofnodi, gwelwn fod mwy na 1800 o achosion o drais yn y cartref yn dod i'n sylw bob blwyddyn yn y Fro. Wrth reswm, nid yw'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r achosion na ddaethant i sylw'r heddlu ac yn ôl ymchwil y Swyddfa Gartref (2007), bydd rhai pobl yn dioddef cymaint â 35 o ymosodiadau cyn gofyn am help. Mae hyn hefyd yn dangos mai'n anaml iawn y bydd trais yn y cartref yn digwydd unwaith yn unig. Trosedd yn erbyn menywod yw trais yn y cartref ar y cyfan, er bod rhyw chwarter y 1800 o ddiodefwyr bob blwyddyn yn ddyinion.

Ym Mro Morgannwg, 2% o fenywod a llai nag 1% o ddyinion a fydd yn dioddef oherwydd trais yn y cartref. Bydd y rhan fwyaf o achosion yn cael eu dwyn i sylw'r heddlu yn ardal y Barri. Eto i gyd, y mae'n haws o lawer cuddio achosion o gam-drin mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd mwy cyfoethog.

Yn ôl ymchwil y Swyddfa Gartref, y mae 5,000 o droseddwy'r eithriadol o weithgar ymhlith y 100,000 o droseddwy'r mwyaf Cymru a Lloegr, sy'n gyfrifol am 9% o'r holl droseddau. Mae Strategaeth Troseddwy'r Cyson a Throseddwy'r eraill sy'n cael blaenoriaeth, a gyflwynwyd gan y

#### 2. Troseddwy'r Cyson a Throseddwy'r eraill sy'n cael blaenoriaeth

Yn ôl ymchwil y Swyddfa Gartref, y mae 5,000 o droseddwy'r eithriadol o weithgar ymhlith y 100,000 o droseddwy'r mwyaf Cymru a Lloegr, sy'n gyfrifol am 9% o'r holl droseddau. Mae Strategaeth Troseddwy'r Cyson a Throseddwy'r eraill sy'n cael blaenoriaeth, a gyflwynwyd gan y

Swyddfa Gartref ym Medi 2004, yn gofyn am gymorth Partneriaethau Diogelu Cymunedau a Grwpiau Cyfiawnder Troseddol lleol i ddarparu rhaglen monitro ac ymyrryd dwys. Bydd y rhaglen honno'n rhoi sylw arbennig i droseddwy'r a phobl ifanc sydd mewn perygl o droi'n droseddwy'r cyson yn y dyfodol.

Diben cynllun 'troseddwy'r mawr a throseddwy'r blaenoriaeth' yw cymell asiantaethau i ymateb yn well i sefyllfa lle mae lleiafrif cydnabyddedig o droseddwy'r yn gyfrifol am lefel anghymesur o droseddu ac anhrefn. Cynllun cenedlaethol yw hwn i dargedu troseddau sy'n cael eu cyflawni gan nifer fach o droseddwy'r dyfal.

### 3. Camddefnyddio Sylweddau

Mae strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ymdrin â phroblemau camddefnyddio sylweddau "Cydwethio dros leihau niwed" yn ganolog i'r frwydr yn erbyn camddefnyddio sylweddau yn y Fro. Mae camddefnyddio sylweddau'n achosi niwed mawr i unigolion a'r gymdeithas fel ei gilydd. Bydd yn niweidio iechyd corfforol a meddyliol defnyddwy'r, yn niweidio teuluoedd drwy amharu ar iechyd a lles eu plant ac yn gorfodi perthnasau eraill i gymryd rhan yn y gwaith gofalu. Bydd hefyd yn niweidio cymunedau defnyddwy'r drwy ysgogi troseddu, anhrefn ac ymddygiad anghymdeithasol. Amcangyfrifwyd y bydd Cymru'n colli rhyw £780 miliwn o ganlyniad i effaith cyffuriau Dosbarth A ar yr economi a'r gymdeithas, a bod 90% o'r golled i'w phriodoli i droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at bedwar maes gweithredu sef:


- Atal niwed
- Cynorthwyo'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau
- Cynorthwyo teuluoedd
- Ceisio sicrhau bod llai o gyffuriau ar gael a gwarchod unigolion a chymunedau.

Mae gan Dîm Cyngori'r Fro ynglŷn â Chamddefnyddio Sylweddau bedwar is-grŵp sy'n adlewyrchu'r meysydd hyn. Mae gan bob is-grŵp hefyd gynllun gweithredu blynyddol sy'n tynnu sylw at unrhyw gynnydd a gwaith ychwanegol sydd angen ei wneud.

### 4. Cynnwys Cymunedau

Er mwyn bod yn llwyddiannus yn ei gwaith, y mae'n rhaid i Bartneriaeth Bro Ddiogelach gynnwys cymunedau lleol. Tasg bwysig iawn iddi felly fydd sicrhau bod pob cymuned yn cael cyfrannu go iawn tuag at osod blaenoriaethau ar gyfer eu hardaloedd, a'i bod hefyd yn hawdd i gymunedau alw'r bartneriaeth i gyfrif. Mae'n rhaid i bob cynllun a gwasanaeth sydd wedi'i gomisiynu gan y Bartneriaeth ddangos bod y gymuned yn chwarae rhan ganolog yn y broses benderfynu.

Prif fodel y Bartneriaeth ar gyfer cysylltu â'r gymuned ar hyn o bryd yw'r cynllun 'Partneriaeth a Chymunedau gyda'i gilydd'. Bydd yr holl faterion sy'n cael eu codi yn y wardiau'n cael eu trafod a'u trefnu'n ôl blaenoriaeth ar gyfer eu trin. Bydd unrhyw faterion na allwn eu datrys yn lleol yn cael eu cyfeirio at Grŵp Cynnwys Cymunedau'r Fro Ddiogelach sydd wedi'i awdurdodi i ymdrin â blaenoriaethau felly.



Yn 2009, cynhaliodd y Bartneriaeth 'arolwg cynnwys cymunedau' er mwyn cael tynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar gymunedau lleol. Bu hyn o gymorth iddi nodi'r rhannau o'r gymuned sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol o dan y system 'gynnwys' presennol, a hefyd bwysu a mesur llwyddiant y dulliau cynnwys. Cafodd canlyniadau'r arolwg eu hymgorffori yn Asesiad Strategol y Bartneriaeth 2009 sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn cysoni adnoddau â'r blaenoriaethau ar gyfer ymdrin â throseddu ac anhrefn.

## 5. Sicrhau bod llai o achosion o Ymddwyn yn Anghymdeithasol

Yn ôl Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998, ymddygiad anghymdeithasol yw unrhyw ymddygiad sy'n debyg o ddychryn, poeni neu flino aelodau o'r cyhoedd.

Mae ymddygiad anghymdeithasol sylweddol mewn ardaloedd difreintiedig yn rhwystr rhag eu hadfywio, a gall greu'r math o amgylchedd sy'n denu troseddau mwy difrifol. Bydd mwy o ofn troseddwr hefyd ar bobl sy'n byw mewn cymunedau felly.

Mae mynd i'r afael ag ymddygiad anghymdeithasol yn un o brif feysydd blaenoriaeth Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus 23 (Gwneud Cymunedau'n fwy Diogel). Dyma un o ddangosyddion perfformiad y Swyddfa Gartref ar gyfer Partneriaethau Diogelu Cymunedau.

Bu'n arfer erioed gan Bartneriaeth Bro Ddiogelach noddi gweithgareddau unigol er mwyn difyrru pobl ifanc. Bellach, y mae am drefnu'n well ar gyfer ymdrin ag ymddygiad anghymdeithasol drwy dargedu'r ardaloedd sy'n dioddef fwyaf. Bydd nid yn unig yn cynnig gweithgareddau ond hefyd yn mynd i'r afael â gwreiddyn y broblem drwy weithredu cynlluniau amlasiantaethol.

Bydd Partneriaeth Bro Ddiogelach yn derbyn llawer iawn o gwynion am ymddygiad anghymdeithasol. Ymddengys, wrth eu dadansoddi, mai dynion gwyn rhwng 16 ac 20 oed sy'n bennaf gyfrifol am ymddwyn yn y modd yma, a bod y broblem yn digwydd amlaf rhwng 8pm a 10pm ar nos Wener a nos Sadwrn.

## Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

### 1. Cam-drin yn y cartref

- Adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y bartneriaeth er mwyn cael ymateb mewn ffordd unedig a threfnus
- Targedu teuluoedd er mwyn sicrhau bod pawb yn fwy sefydlog, bod cartrefi'n ddiogel a bod plant yn emosiynol iach
- Trin agweddau negyddol ynglŷn â rhyw a'r berthynas rhwng unigolion ac aelodau o deuluoedd



Ystafell Rheoli TCC

### 2. Troseddwr Cyson a Throseddwr eraill sy'n cael blaenoriaeth

- Gwella cydweithrediad rhwng partneriaid er mwyn sicrhau bod gwybodaeth fanwl gywir am droseddwr yn cael ei chyfnewid yn brydlon
- Cydweithio'n agosach ag asiantaethau sy'n ymdrin â chamddefnyddio sylweddau a cham-drin yn y cartref er mwyn

Ileihau effaith diwylliant tybiedig y troseddwyr hyn ar droseddwyr tebyg ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

- Sicrhau bod gwell cymorth a gwasanaethau ar gael yn y tymor hir er mwyn gostwng nifer y troseddwyr hyn

### 3. Camddefnyddio Sylweddau

- Parhau i gydweithio'n ddyfal â gwahanol asiantaethau er mwyn gweithredu'r strategaeth ddeng mlynedd 'Cydweithio dros leihau Niwed'
- Datblygu strategaeth alcohol fel y bo'n fwy anodd i bobl ifanc gael gafael ar alcohol
- Datblygu'r gweithlu ymhellach er mwyn cael sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi ac yn cael eu cefnogi'n ddigon i allu darparu gwasanaethau ar gyfer rhai sy'n camddefnyddio sylweddau

### 4. Cynnwys y Gymuned

- Dod o hyd i ffyrdd newydd o gynnwys y gymuned fel y bo'r un mor hawdd i bob sector gydweithio â'r Bartneriaeth a chymryd rhan yn ei phroses benderfynu
- Cydweithio ag asiantaethau a phartneriaid er mwyn cael ymdrin â materion cymunedol mewn ffordd fwy ymarferol
- Cydweithio ag asiantaethau a chymunedau lleol er mwyn dod o hyd i ffyrdd gwell o ddatrys problemau a'u datblygu

### 5. Ymddygiad Anghymdeithasol

- Cydweithio â phartneriaid ac asiantaethau eraill er mwyn cael gwared ar ffactorau sy'n ysgogi ac yn gwaethygu ymddygiad anghymdeithasol
- Cydweithio â gwasanaethau sy'n helpu i dawelu'r ofn ymddygiad anghymdeithasol sydd ar bobl ifanc a chomisiynu gwasanaethau tebyg
- Dadansoddi rhagor o ddata am achosion o ymddygiad anghymdeithasol er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau ac asiantaethau gael penderfynu sut yn union i ymyrryd yn y dyfodol
- Cydnabod bod alcohol yn gwaethygu troseddu a chymryd hynny i ystyriaeth wrth ymyrryd.
- Rhoi blaenoriaeth i wardiau Baruc, Castleland a Chatwg yn y Barri



Clogwyni'r Arfordir Treitadaeth



Niwl y bore yn y Barri



Cynhaef yn y Wig



## Adfywio

### Cyflwyniad

Ardal sy'n amrywio lawer iawn o ran ei chyfansoddiad economaidd-gymdeithasol a'i hamgylchedd yw Bro Morgannwg. Er ei bod yn ymfalchio mewn amgylchedd naturiol o safon eithriadol, y mae ganddi hefyd boblogaeth drefol niferus a rhai o'r lleoliadau mwyaf ffyniannus a difreintiedig yng Nghymru. Oherwydd yr amrywiaeth hon, y mae'n anodd ymdrin â nodweddion economaidd-gymdeithasol yr ardal, ac er bod y gweithlu'n gymwys iawn ar y cyfan, y mae tloidi addysgol sylweddol i'w weld mewn rhai mannau penodol.

Mae'r Fro'n ffinio ar ddwy ardal o bwysigrwydd cadwraethol rhyngwladol ac y mae ganddi bum ardal ar hugain o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, tair gwarchodfa natur leol, Arfordir Treftadaeth Morgannwg, dau barc gwledig a phob math o gynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd cadwraethol. Bydd y Fro'n elwa ar yr holl asedau a chyfluoedd hyn am y gellir eu defnyddio er mwyn meithrin ffyniant economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol.

### Materion Strategol

#### 1. Cyflogaeth

Mae'r rhan fwyaf o swyddi yn y Fro'n ymwneud â'r Weinyddiaeth Gyhoeddus, Iechyd a Gwaith Cymdeithasol a Busnesau Cyfanwerthu ac Adwerthu. Er i nifer y cyflogedig ddisgyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, llwyddodd y sectorau trafniadaeth a chyfathrebu a busnes i wrthsefyll y duedd honno a chyflogi mwy o bobl yn ystod y 10 mlynedd diwethaf nag unrhyw sector arall.



Roedd economi'r Fro'n werth £1.3bn yn 2008 yn ôl y ffigurau amcan. Mae'n bosibl iddi grebachu ryw ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol am fod llai o bobl yn cael eu cyflogi yn y Fro erbyn hyn (wrth i lawer mwy deithio i waith y tu allan i'r ardal). Rhagwelir y bydd gwasanaethau busnes, adwerthu a dosbarthu, y sector iechyd a thrafnidiaeth a chyfathrebu'n gyrru twf economaidd yn y dyfodol.

Cynyddodd nifer di-waith y Fro'n sydyn yn ystod 2008/09, sy'n awgrymu bod y dirwasgiad byd-eang wedi cael cryn effaith sy'n fwy nag ym Mhrydain yn gyffredinol ond yn ddigon tebyg i'r hyn sy'n arferol yng Nghymru. Am fod disgwyl i nifer y di-waith gynyddu'n gyson tan ddiwedd 2010 a disgyn ryw ychydig wedyn, dyfalwn y bydd diweithdra'n gyndyn o uchel am sbel ar ôl i'r dirwasgiad ddod i ben onibai i'r sector cyhoeddus ymyrryd.

#### 2. Cofleidio Amrywiaeth a Lleoliad

Un o brif nodweddion y Fro yw amrywiaeth, ac y mae'r ardal yn llawn asedau ffisegol a dynol o bob math. Gan hynny, dylai pob ymdrech adfywio ganolbwyntio ar elwa i'r eithaf ar y cyfoeth hwnnw. Er mwyn sicrhau bod cymunedau'n gynaliadwy, y mae'n rhaid cynnwys pobl leol, darparu ar gyfer eu hanghenion a sicrhau bod ganddynt ansawdd bywyd da sydd hefyd yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Wrth ystyried bod y Fro wedi'i lleoli yn ardal fwyaf poblog Cymru ac yn gallu cysylltu'n hawdd â rhannau eraill o Brydain a gwledydd tramor, dylid hefyd ganolbwyntio ar ddatblygu rôl iddi fel rhan o 'Ardal Ddinesig' De-ddwyrain Cymru.



### 3. Adnoddau

Er mwyn i'r Fro gael chwarae rhan bwysig yn yr economi ranbarthol, bydd angen arian oddi wrth y sector cyhoeddus a buddsoddwyr eraill. Mae Cynllun Gofodol Cymru wedi dynodi'r Barri'n brif anheddiad a'r datblygiad yn Sain Tathan yn brif ardal cyfle strategol. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cyd-drefnu buddsoddiadau partneriaid ac yn chwilio am adnoddau allanol er mwyn cael manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sydd i'w cael yn yr ardal hon.

#### Blaenoriaethau ar gyfer gweithredu

##### 1. Cyflogaeth

- Nodi'r union sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol a chynnal cyflenwad o sgiliau lleol
- Cymryd rhan o ddifrif mewn rhaglenni LICC er mwyn cael dylanwadu ar brosesau prynu a digwyddiadau ar gyfer cyfarfod â phrynwyr
- Chwarae rhan ymarferol yn y broses o ddenu prif ddatblygiadau i'r ardal
- Hybu a hwyluso datblygiad Coleg Technegol Amddiffyn a Pharc Awyrofod Sain Tathan
- Sicrhau bod y safle'n ddigonol
- Cynnal prosiectau er mwyn creu rhwydwaith trafniadaeth
- Cydweithio â sefydliadau cymorth busnes presennol er mwyn annog busnesau i fod yn gynaliadwy a helpu mentrau bach a chanolig i dyfu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- Meddwl am ffyrdd eraill o ddefnyddio canol y dref wrth i siopau gau
- Llunio dadl dros ddynodi'r Barri a Sain Tathan yn Ardal Adfywio Strategol



Gerddi Windsor, Penarth



Marina Penarth

##### 2. Cofleidio Amrywiaeth a Lleoliad

- Cwblhau a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol er mwyn cymell a hwyluso datblygiad cynaliadwy
- Gwneud y gorau o adnoddau er mwyn cael gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol.
- Diweddarau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol
- Cefnogi arallgyfeirio amaethyddol
- Datblygu cynlluniau ar gyfer arbed ynni ac addysgu pobl ynglŷn â chwtogi ar garbon.
- Lleihau llygredd a pherygl llifogydd
- Sicrhau bod llai o wastraff yn cael ei gladdu yn y ddaear
- Annog pobl i ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus a rhannu ceir
- Sicrhau bod prif ddatblygiadau'n cydymffurfio â'r safonau llym sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac ynni

##### 3. Adnoddau

- Gwneud y gorau o raglenni ar gyfer adfywio ardaloedd
- Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru
- Defnyddio prosesau cynllunio er mwyn ateb gofynion ar gyfer tai fforddiadwy
- Hybu a chefnogi marchnadoedd ffermwyr a meddwl am ffyrdd o ddarparu ar gyfer cylch ehangach
- Sicrhau bod cyfleusterau cymunedol a chyfleusterau ar gyfer pobl ifanc yn haws eu defnyddio
- Datblygu a gweithredu cynllun gweithredu ar gyfer twristiaeth